# Medi 23 - Llythyr Newyddion
## yr Adran Lle a Seilwaith

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council



Helo bawb, dyma ni ar ddiwedd yr haf a gwyliau'r ysgol.

Rwy'n gobeithio eich bod wedi gallu manteisio ar y cyfle i fwynhau rhywfaint o amser i ffwrdd o'r gwaith a gorffwys. Er nad yw'r tywydd wedi bod yn arbennig o dda, rwy'n siŵr y byddwch wedi gwerthfawrogi'r amser i ffwrdd o hyd.

Mae'r llythyr newyddion hwn yn llawn gwybodaeth o bob rhan o'r adran ac mae'n cynnwys rhai eitemau a diweddariadau o bwys.

Rwyf wedi bod yn ymweld â gwahanol leoliadau yn ystod y mis diwethaf er mwyn dod yn fwy cyfarwydd â chi a'ch timau.

Wrth wneud hynny, yr hyn sydd bob amser yn fy nharo yw'r brwdfrydedd a'r proffesiynoldeb sydd gennym yn ein gwasanaethau ac, wrth gwrs, yr amrywiaeth eang o wasanaethau rydym yn eu darparu fel adran.

Felly, ymlaen at graidd y llythyr newyddion hwn, sy'n cynnwys eitemau yn ymwneud ag ymddeoliadau, penodiadau, ad-drefnu gwasanaethau, cyflawniadau, mentrau a chyfleoedd

*Ainsley*

## **Diolch** yn fawr iawn i Stephen Pilliner cyn ei ymddeoliad

Mae'r haf meteorolegol yn dod i ben ym mis Medi, sef carreg filltir yn y calendr blynyddol.



Rydym yn cyrraedd carreg filltir arall fel adran ym mis Medi eleni, wrth i Steve Pilliner, Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd, ymddeol. Bydd Steve yn ymddeol ddiwedd mis Medi ar ôl dros 44 o flynyddoedd mewn Llywodraeth Leol.

Ymunodd Steve â Chyngor Sir Caerfyrddin yn 2000 fel Rheolwr Trafnidiaeth gan symud ymlaen i'w swydd bresennol fel Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd.

Mae Steve a'r tîm wedi cyflawni llawer o brosiectau cyfalaf sylweddol yn ymwneud â phriffyrdd a thrafnidiaeth dros y blynyddoedd, gan gynnwys cynlluniau priffyrdd newydd, strwythurau pontydd, seilwaith teithio llesol a mentrau trafnidiaeth gymunedol yn ogystal â dechrau ein seilwaith gwefru cerbydau trydan, gan ddarparu sylfaen gadarn a dyfodol mwy cynaliadwy i ddiwallu ein hanghenion trafnidiaeth. Un o'r llwyddiannau nodedig mwyaf diweddar oedd caffael bysiau trydan a chomisiynu ac adeiladu'r derfynfa fysiau newydd a'r orsaf gwefru cerbydau trydan gysylltiedig yn Nant-y-ci, Caerfyrddin. Mae hyn wedi galluogi Trafnidiaeth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaeth bws trydan rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth.

Cyflawniad arwyddocaol a nodedig arall a oedd y tu allan i gwmpas arferol Steve o ran darparu gwasanaethau oedd arwain tîm yn ystod pandemig Covid a oedd yn gyfrifol am adeiladu sawl ysbyty maes yn Sir Gaerfyrddin. Roedd hwn yn gyflawniad eithaf sylweddol mewn cyfnod byr wrth i'r timau amrywiol wneud eu gorau glas o dan arweinyddiaeth Steve, gan roi sylw manwl i fanylion i sicrhau bod hyn yn cael ei ddarparu ar amser ac yn unol â'r gyllideb.

Mae Steve, wrth gwrs, yn aelod uchel ei barch o'r uwch-dîm, nid yn unig yma yn Sir Gaerfyrddin, ond ar draws y rhychwant proffesiynol a fforymau amrywiol sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth a seilwaith ledled Cymru.

Mae Steve wedi bod yn rhan gadarn o'r Adran yn ystod digwyddiadau na ellid eu rheoli - fel arfer argyfyngau yn ymwneud â'r tywydd. Mae ei arddull a'i ffordd drefnus o weithio wrth gadeirio gwahanol grwpiau ymateb brys mewnol yn ystod y blynyddoedd wedi bod yn rhagorol. Efallai na fydd Steve yn colli'r argyfyngau, ond mae'n deg dweud ein bod ni i gyd wedi dysgu llawer o'i brofiad yn hyn o beth.

Hoffwn, felly, ddymuno'n dda i Steve wrth iddo ymddeol, ar ran yr Adran gyfan, ei gydweithwyr ar draws y Cyngor ac yn arbennig gennyf fi fy hun fel Cyfarwyddwr, am yr holl ymroddiad ac ymrwymiad a ddangoswyd yn ystod ei yrfa gyda Sir Gaerfyrddin a'r hyn y mae wedi'i gyflawni. Mwynhewch ymddeoliad haeddiannol a chynhyrchiol, Steve.

Bydd ein cylchlythyr nesaf ym mis Rhagfyr, os oes gennych unrhyw straeon yr hoffech eu cynnwys os gwelwch yn dda, cysylltwch â **SHRees@sirgar.gov.uk** Gallwch hefyd gael y newyddion diweddaraf am ein tudalen fewnrwyd bwrpasol: **http://mewnrwyd/ein-pobl/lle-a-seilwaith**

# Dan John yw ein Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol newydd



Bydd y cyfnod hwn hefyd yn nodi carreg filltir arall wrth gyfuno dwy is-adran, sef Trafnidiaeth/Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol/Gwastraff, i greu un Is-adran newydd, sef Seilwaith Amgylcheddol.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i estyn ein llongyfarchiadau yn ffurfiol i Dan John ar gael ei benodi'n Bennaeth Seilwaith Amgylcheddol yn ddiweddar.

Ymunodd Dan â Sir Gaerfyrddin ym mis Ionawr 2017 fel Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol, ar ôl gweithio i Gyngor Sir Penfro cyn hynny.

Bydd Dan yn arwain yr is-adran newydd sy'n cyfuno'r hen bortffolios Gwasanaethau Amgylcheddol/Gwastraff a Thrafnidiaeth/Priffyrdd. Fel y gwyddoch i gyd, mae ystod y gwasanaethau o dan yr is-adran newydd yn eang ac maent yn alluogwyr mawr i'n cymunedau yn ogystal â bod yn wasanaethau gweladwy rheng flaen allweddol y mae ein cyhoedd yn dibynnu arnynt bob dydd. Felly, mae'r gwasanaethau yr ydych chi yn eu darparu yn yr is-adran newydd o bwys corfforaethol sylweddol.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda Dan i wneud yr is-adran newydd yn llwyddiant ac rwy'n gwybod y byddwch chi i gyd yn rhoi eich cefnogaeth i Dan i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Mae Dan eisoes wedi dechrau ymgysylltu â chi fel aelodau o'r is-adran newydd i drafod syniadau a meddyliau a'i weledigaeth a'i ddyheadau ar gyfer yr is-adran newydd. Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ni i gyd lunio dyfodol yr adran.

*Croeso i'r swydd newydd, Dan.*

## Dymuno ymddeoliad hapus i Cliff

Yn ddiweddar, ymddeolodd Cliff Cleaton a fu'n arwain yr Uned Gwaith Stryd a Mabwysiadu Priffyrdd, yn dilyn gyrfa hir gyda Chyngor Dosbarth Caerfyrddin gynt ac yna Cyngor Sir Caerfyrddin.

Hoffwn ddiolch i Cliff am ei gyfraniad gwerthfawr a'i wasanaeth ymroddedig dros y blynyddoedd ac, ar ran pob un ohonom, dymuno ymddeoliad hapus i Cliff.

*Diolch*

## Tîm Gweithrediadau Gwastraff yn cymryd rhan yn y Ras Fwdlyd Iawn!

Da iawn i Carly, Yana, Mark a Declan a gwblhaodd Gwrs Rhwystrau Mwdlyd Iawn 5k gan godi swm anhygoel o £534 ar gyfer Ymchwil Canser. Os ydych chi'n bwriadu cymryd rhan mewn digwyddiad elusennol ac am rannu'r neges, e-bostiwch Shrees@sirgar.gov.uk i gael sylw yn y llythyr newyddion.



Dyma'r tîm cyn ac ar ôl eu ras fwdlyd iawn!

## Cyflwyniad gyda Dan John

Rwy'n falch ac wrth fy modd fy mod wedi cael fy mhenodi i'r swydd newydd hon o Bennaeth Seilwaith Amgylcheddol ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyd i ddarparu ein gwasanaethau yr ydym yn eu darparu mor dda i drigolion Sir Gaerfyrddin ac ein ymwelwyr.

Fel y bydd llawer ohonoch yn gwybod gydag ymddeoliad Steve Pilliner, mae'r rôl newydd hon yn cynnwys cyfuniad o'r portffolios Gwasanaethau Gwastraff ac Amgylcheddol a Phriffyrdd a Chludiant. Mae gennyf lawer i ddiolch i Steve amdano yn ei gefnogaeth tra'n gweithio ochr yn ochr â mi, yn fy rôl fel Rheolwr Gwasanaethau Amgylcheddol dros y chwe blynedd diwethaf ac yn fwy diweddar dros yr ychydig wythnosau diwethaf wrth drosglwyddo i'r rôl newydd hon. Rwy'n dymuno'r gorau i Steve yn y dyfodol, ac yn gobeithio y cewch chi ymddeoliad hir a hapus.

Yn bersonol, rwy'n angerddol am greu amgylchedd gwyrddach ac iachach ar gyfer ein cymuned, tra hefyd yn sicrhau rheolaeth gyfrifol ac effeithlon o'n gwasanaethau a'n prosiectau datblygu seilwaith.

Rwy'n credu'n gryf mewn cydweithio a gwaith tîm. Rwy'n awyddus i gwrdd â'r holl dimau i ddeall eu rôl a'u cyfraniad o fewn yr Is-adran Seilwaith Amgylcheddol. Rwy'n agored i awgrymiadau a syniadau gan bob aelod o'r tîm, gan fod eich arbenigedd a'ch mewnwelediad yn amhrisiadwy wrth gyflawni ein cyfrifoldebau'n effeithiol. Gyda'n gilydd, gallwn weithio tuag at gyflawni ein gweledigaeth gyffredin o Sir Gaerfyrddin gynaliadwy a chydnerth.

Rwy'n wirioneddol gyffrous am y cyfleoedd sydd o'n blaenau a'r effaith gadarnhaol y gallwn ei chael gyda'n gilydd. Rwy'n hyderus, gyda'n hymroddiad, ein harbenigedd a'n hymrwymiad ar y cyd i'n hamgylchedd lleol, y gallwn fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau a darparu ein gwasanaethau a fydd o fudd i Sir Gaerfyrddin a'i thrigolion, busnesau ac ymwelwyr fel ei gilydd.

*Dan*

# Ad-drefnu'r Portffolio Eiddo:

Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ganlyniad adolygiad diweddar o drefniadau rheoli eiddo ar draws y Cyngor yn dilyn ad-drefnu'r swyddogaeth cynnal a chadw tai yn flaenorol.

Roedd yr adolygiad diweddaraf hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y swyddogaethau ehangach o ran rheoli a chynnal a chadw eiddo sy'n rhan o ddwy Adran y Cyngor – Lle a Seilwaith a'r Prif Weithredwr.

Mae swyddogaethau cynnal a chadw a dylunio eiddo wedi bod yn destun sawl adolygiad dros nifer o flynyddoedd sydd wedi arwain at ganlyniadau amrywiol, gan gynnwys ad-drefnu swyddogaethau cynnal a chadw tai ac eiddo.

Mae'r adolygiad diweddaraf yn canolbwyntio ar synergeddau rhwng rheoli ein heiddo yn strategol (o fewn adran y Prif Weithredwr) a sut mae ein rhaglenni cynnal a chadw a'r gwaith cysylltiedig (o fewn yr Adran Lle a Seilwaith) yn cyd-fynd â'r strategaeth eiddo ehangach a'r blaenoriaethau corfforaethol.

Ar hyn o bryd mae'r cyfrifoldeb am yr holl swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag eiddo yn rhan o dair adran wahanol ar draws y Cyngor: Cymunedau (tai), Prif Weithredwr (rheoli asedau eiddo strategol) a Lle a Seilwaith (cynnal a chadw, cydymffurfio a dylunio).

Mae'r adolygiad diweddaraf yn nodi nad yw ein trefniant presennol o rannu cyfrifoldeb am ein portffolio eiddo ar draws adrannau yn darparu'r dull gorau o reoli ein portffolio eiddo mewn modd cydgysylltiedig a chydlynol.

Ar ôl rhoi llawer o ystyriaeth i'r agweddau hyn, roedd yn amlwg bod angen dull mwy cydlynol o reoli ein portffolio eiddo. Felly, daethpwyd i'r casgliad y bydd agweddau cynnal a chadw a dylunio eiddo y gwasanaeth yn yr adran Lle a Seilwaith yn trosglwyddo i Adran y Prif Weithredwr, gan adrodd i Jason Jones, Pennaeth Adfywio, Polisi a Digidol. Rhagwelir y bydd y broses drosglwyddo hon yn digwydd tua diwedd mis Medi neu ddechrau mis Hydref.

Ni fydd hyn yn effeithio ar y trefniadau presennol sy'n ymwneud â chynnal a chadw stoc dai'r Cyngor. Bydd yr elfen hon yn aros yn yr adran Cymunedau.

Hoffwn eich sicrhau, fel timau yn yr unedau cynnal a chadw a dylunio eiddo, mai'r sbardun ar gyfer yr adolygiad hwn a'i ganlyniadau yw darparu gwasanaeth rheoli eiddo mwy cydlynol a strategol ar draws y Cyngor. Felly, hoffwn eich sicrhau mai'r rhesymau dros y cynigion a nodir yw darparu mwy o sicrwydd ac integreiddio o safbwynt corfforaethol. Nid yw hyn yn ymgais i leihau costau.

O'm safbwynt i fel Cyfarwyddwr, mae bob amser yn anodd pan fydd staff yn cael eu trosglwyddo o'r Adran, ond rwy'n hyderus bod y cynigion a nodir yn iawn o safbwynt y Cyngor cyfan ac y byddant yn rhoi sefydlogrwydd ar gyfer y dyfodol.

Yn olaf, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i chi i gyd yn y gwahanol dimau sy'n gysylltiedig ag eiddo am eich gwaith caled a'ch ymroddiad i gyflawni swyddogaethau dylunio, adeiladu a chynnal a chadw proffesiynol i'r Cyngor fel rhan o'r adran hon. Rwy'n hyderus y byddwch chi, wrth gwrs, yn parhau i wneud hynny yn adran y Prif Weithredwr mewn modd proffesiynol ac ymroddedig.

# Neges arbennig gan Stephen Pilliner cyn iddo ymddeol

44 o flynyddoedd a deufis ar ôl dechrau fy ngyrfa mewn Llywodraeth Leol, mae'r amser wedi dod i mi ffarwelio a diolch, wrth i mi ymddeol ddiwedd y mis hwn.

Ar ôl treulio'r 17 mlynedd gyntaf gyda Chyngor Sir Morgannwg Ganol, yna pum mlynedd gyda Phen-y-bont ar Ogwr yn dilyn ad-drefnu Llywodraeth Leol yn 1996, ymunais â Sir Gaerfyrddin yn 2000. Mae Llywodraeth Leol wedi rhoi cyfleoedd dysgu ac addysg i mi. Byddaf yn ddiolchgar iawn am byth.

Mae wedi bod yn yrfa ddiddorol, a heriol ar adegau, ond hefyd yn yrfa flaengar. Rwyf wedi cael y fraint o weithio gyda llawer o bobl ymroddedig, weithgar a chreadigol, yn enwedig yma yn Sir Gaerfyrddin.

Ni allaf adael i'r eiliad hwn fynd heibio heb ddweud diolch arbennig i'r holl dîm Priffyrdd a Thrafnidiaeth sydd bob amser wedi bod yn barod i ymateb i'n her nesaf, ein prosiect nesaf, yr alwad ffôn, yr alwad Teams neu'r e-bost nesaf, ar unrhyw adeg o'r dydd.

Byddaf yn cymryd amser i fyfyrio ar y nifer o bethau cadarnhaol yr ydym wedi'u creu ar gyfer cymunedau ledled Sir Gaerfyrddin. Mae llawer wedi cael eu cydnabod gan gymheiriaid ar draws y proffesiynau yn genedlaethol dros y blynyddoedd, fel y dangosir gan nifer y gwobrau cenedlaethol a dderbyniwyd.

Yn y byd hwn sy'n newid drwy'r amser mae'n rhaid inni gymryd dau gam ymlaen o hyd rhag ofn y bydd yn rhaid inni gymryd un cam yn ôl. Mae hyn yr un mor bwysig heddiw ag y bu erioed, wrth i gymdeithas barhau i adfer yn dilyn pandemig byd-eang ac wrth i ni ddechrau cyfnod newydd a fydd yn cael ei yrru gan dechnoleg, yn ei holl ffurfiau, boed hynny'n TG, ynni, cerbydau neu seilwaith.

Rwy'n gwybod, fel y galwadau a'r negeseuon e-bost heriol (gennyf i!), waeth pa mor anodd yw'r dasg, byddwch chi i gyd yn croesawu'r cyfleoedd neu'r heriau sydd o'ch blaen ac yn cyflawni'r hyn sy'n ofynnol, fel rydych chi bob amser wedi ei wneud, drwy weithio fel tîm.

Byddaf bob amser yn trysori'r perthnasoedd a'r cyfeillgarwch a grëwyd yn sgil yr oriau lawer o waith caled a wnaed gennych chi i gyd.

Rwy'n dymuno pob llwyddiant yn y dyfodol i chi, Dan, fel eich Pennaeth Gwasanaeth newydd, i Ainsley fel Cyfarwyddwr, ac yn wir i bawb ar draws yr Adran a'r Awdurdod.

Mae Sir Gaerfyrddin yn lle arbennig a fydd yn aros gyda mi am byth.

Diolch yn fawr.

Steve

# Croeso cynnes i'n graddedigion

**Rydym yn estyn croeso cynnes a brwdfrydig i'r graddedigion diweddaraf sy'n ymuno â Lle a Seilwaith.**

Mae eich taith gyda ni yn gam cyffrous wrth i chi ddod â'ch safbwyntiau newydd, eich egni a'ch gwybodaeth i'n tîm.

Rydych chi'n ychwanegiad gwerthfawr i'n gweithlu, ac rydym yn edrych ymlaen at gefnogi eich twf proffesiynol.

**Dyma neges gan Vincent Sheldrake sydd wedi ymuno â'r Tîm Gwella Gwasanaethau a Thrawsnewid yn ddiweddar:**




"Shwmae, es i i Brifysgol Aberystwyth i wneud gradd mewn Hanes a Llenyddiaeth ac rydw i bellach yn Hyfforddai Graddedig mewn Datblygu a Gwella Gwasanaethau.

Gwnes i gais i'r awdurdod am y cyfle i barhau i ddysgu a gwasanaethu'r gymuned yn Sir Gaerfyrddin.

Rwyf wedi cael croeso cynnes iawn yma ac, wrth gefnogi cynllunio'r gweithlu, rwyf wedi dod i werthfawrogi'r gwasanaeth hanfodol ac eang a ddarperir gan yr adran hon."

Vincent

**Dyma neges gan Lucy sydd wedi ymuno â'r Tîm Strategaeth Gwastraff yn ddiweddar:**



Helo Lucy ydw i ac yn 2018 es i Brifysgol Oxford Brookes i astudio Bioleg a Chadwraeth Anifeiliaid. Yn gynharach eleni es i Meistr Gwyddoniaeth Prifysgol Exeter i astudio Bioamrywiaeth a Chadwraeth yr Ynys lle cefais radd dosbarth cyntaf (rhwng gweithio fel paragyfreithiol ymgyfreitha yn Jersey C.I).

Rwyf bellach yn Hyfforddai Graddedig mewn Economi Gylchol, Strategaeth Wastraff a Pholisi.

Fe wnes i gais gan fy mod wastad wedi bod ag awydd i gael gyrfa sy'n ymroddedig i stiwardiaeth amgylcheddol.

Roedd fy mhythefnos gyntaf yn y swydd yn cynnwys ymweliadau safle â'n canolfannau gwastraff y cartref ac ailgylchu a depos i ddeall sut mae ein gwasanaethau gwastraff yn gweithredu a sut maent yn cael eu dosbarthu ledled y sir. Cyfarfûm hefyd ag aelodau allweddol o fewn gwasanaethau gwastraff ac amgylcheddol i ddeall strwythur a chyfrifoldebau cyffredinol y gwasanaeth.

O fewn fy nau fis cyntaf rwyf wedi creu arolwg (a gynhaliwyd gan ein wardeniaid gwastraff ac ailgylchu) i ganfod sut, pam, a phryd y mae preswylwyr yn defnyddio gwasanaethau yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Tai. Rwyf wedi dadansoddi data'r arolwg hwn ac wedi ysgrifennu adroddiad arno y byddaf yn ei ategu'n fuan â data ychwanegol o brofion grafimetrig.

Rwyf wedi derbyn hyfforddiant ar y we ac wedi diweddaru gwefan y cyngor pan ddaw aflonyddwch gwastraff i'r amlwg. Rwyf wedi cynorthwyo gydag adolygiad o gydrannau ein darpariaeth gwastraff cymunedol, gan reoli'r log gweithredu a byddaf yn cymryd rhan mewn ymarfer sgorio cyn bo hir i nodi pa safleoedd sydd i'w cadw, eu haddasu neu eu dileu. Rwyf wedi cyfuno'r holl ddata cyfredol sydd ar gael ar weithgareddau economi gylchol o fewn y Deg Tref (ynghylch gweithgareddau presennol a nodau'r dyfodol) o adroddiadau ymgynghori a fy ymchwil fy hun yn ogystal ag ymgysylltu ag amrywiaeth o dimau o fewn y cyngor (adfywio, addysg, datblygu bwyd) yn ogystal â sefydliadau allanol i ganfod natur, lleoliad a maint y gefnogaeth gyfredol a'r ddarpariaeth ariannu ar gyfer cymunedau'r Deg Tref.

Rwyf wedi dechrau ysgrifennu ar y buddion carbon sy'n gysylltiedig â gwahanol gategorïau o weithgareddau economi gylchol. Ar hyn o bryd nid oes fframwaith (statudol neu fel arall) yn ymwneud â buddion carbon gweithgareddau economi gylchol, yn enwedig y tu allan i'r cyd-destun atafaelu. Rwy'n gobeithio cael ystadegau carbon ar sail Sir Gaerfyrddin a allai helpu i fod yn sail i fframwaith meintioli carbon lleol ar draws gwahanol gategorïau o weithgareddau economi gylchol.

Yn ddiweddar, rwyf wedi bod yn cydlynu camau gweithredu a strategaeth ar gyfer prosiect trawsnewid gwastraff fel rhan o'n paratoadau ar gyfer y rheoliadau casglu gwastraff wedi'i wahanu yn y gweithle sy'n dod i rym ym mis Ebrill 2024.

Lucy

# Ail-lansio cyfleoedd profiad gwaith

Yn dilyn Diwrnod Golwg Sir Gâr llwyddiannus lle rhoddodd 10 ysgol uwchradd o bob rhan o Sir Gaerfyrddin eu barn ar gynigion cyllideb y Cyngor, cynigiodd Wendy Walters y cyfle i ddisgyblion ddangos eu diddordeb mewn Cyfleoedd Lleoliad. Ar ôl diddordeb enfawr, ym mis Ebrill 2023 fe wnaethom ail-lansio Cyfleoedd Lleoliad am y tro cyntaf ers Pandemig Covid-19.

Rydym wedi llwyddo i ddarparu pum lleoliad ar draws Lle a Seilwaith.

Roedd y lleoliadau hyn yn rhan o'r gwasanaethau Dylunio Priffyrdd, Rheoli Datblygu, Cynnal a Chadw Eiddo, Gwybodaeth Reoli a'r Hwb Cynllunio.

Mae'n hanfodol denu ymgeiswyr iau i'r awdurdod gan y bydd hyn yn helpu i gynllunio'r gweithlu yn y dyfodol. Hoffem ddiolch i'r holl reolwyr sydd wedi gallu bodloni'r ceisiadau hyn yn llwyddiannus.

Mae'r ceisiadau bellach ar gau; fodd bynnag, rydym yn gobeithio eu hailagor ym mis Hydref.

Cyn ailagor ceisiadau, hoffem gynnig cymaint o leoliadau â phosibl. Byddwn yn ychwanegu gwybodaeth ychwanegol at ein tudalen Cyfleoedd Lleoliad i arddangos yr holl wasanaethau ar draws Lle a Seilwaith. Os oes gennych gyfle cyffrous y gallwch ei gynnig, e-bostiwch Shrees@sirgar.gov.uk. Shannen yw Arweinydd yr Adran ar gyfer ceisiadau Profiad Gwaith Lle a Seilwaith.

# Llongyfarchiadau

## i Elliott a Tomos ar raddio!

Mae Jason Jones, Rheolwr Cynnal a Chadw Eiddo, yn llongyfarch Elliott Lewis a Tomos Williams ar gyflawni eu HND a Lefel 5 mewn Rheoli Adeiladu.

Dywedodd Jason wrth y tîm:

"Rwy'n falch iawn o gymryd eiliad i ddathlu cyflawniadau rhyfeddol dau aelod eithriadol o'n tîm - Elliott Lewis a Tomos Williams.

Drwy ymroddiad mawr a gwaith caled, mae Elliott a Tomos wedi cyrraedd cerrig milltir sylweddol yn eu teithiau proffesiynol. Yn ddiweddar, maen nhw wedi cyflawni eu HND ac NVQ Lefel 5 mewn Rheoli Adeiladu, ac rydym yn hynod falch o'u cyflawniadau.

Ymunodd Elliott a Tomos â'n tîm Cynnal a Chadw Eiddo fel rhan o raglen prentisiaeth uwch yn 2020. Drwy gydol eu hamser gyda ni, cawsant gyfle i ymgolli mewn gwahanol agweddau ar y tîm a chael cipolwg amhrisiadwy ar wahanol agweddau ar ein gweithrediadau fel rhan o'u hyfforddiant.

Ers y diwrnod cyntaf, mae eu hymroddiad i'w gwaith wedi bod yn amlwg i bawb. Nid yw'n syndod eu bod wedi ffynnu a rhagori yn



eu rolau. Mae Elliott wedi cael swydd amser llawn haeddiannol fel Cynorthwyydd Cyflawni Prosiectau yn ein Tîm Dylunio Eiddo, gan arddangos ei sgiliau a'i ymrwymiad eithriadol. Ar y llaw arall, mae arbenigedd Tomos wedi creu argraff ar bob un ohonom ac mae wedi cael ei ddewis ar gyfer rôl Arolygydd Adeiladau yn ein tîm Cynnal a Chadw Eiddo.

Ymunwch â mi i longyfarch Elliott a Tomos ar eu llwyddiant haeddiannol! Mae eu cyflawniadau'n dangos nid yn unig eu hymdrechion eu hunain ond hefyd cryfder a natur gefnogol ein tîm cyfan.

Da iawn, Elliott a Tomos! Gan ddymuno dyfodol disglair a ffyniannus i chi."

## i'n Myfyrwyr ILM Lefel 2 a 3

Llongyfarchiadau mawr i'r nifer a gwblhaodd eu Tystysgrif ILM Lefel 2/3 mewn Egwyddorion Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Roedd y gwaith caled a'r penderfyniad yn werth yr ymdrech, da iawn i'r bobl ganlynol:

Zoe Baxter
Wedi cwblhau ILM Lefel 2

Matthew Fosbrooke
Wedi cwblhau ILM Lefel 2

Gary Glenister
Wedi cwblhau ILM Lefel 2

Paul Roberts
Wedi cwblhau ILM Lefel 2

Martin Owen
Wedi cwblhau ILM Lefel 3

Neal Thomas
Wedi cwblhau ILM Lefel 3

Eilian Jones
Wedi cwblhau ILM Lefel 3

Emma Jones
Wedi cwblhau ILM Lefel 3

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech gofrestru, anfonwch e-bost at **TSTraining@sirgar.gov.uk**

# Canolfan Tywi yn cael sylw ar y cyfryngau

Yn ddiweddar, cafodd Canolfan Tywi, sy'n rhan o'r Gwasanaeth Treftadaeth Adeiledig yn yr Is-adran Lle a Chynaliadwyedd, ran flaenllaw mewn erthygl ar y BBC ac ar-lein.

Pwysleisiodd Canolfan Tywi, sy'n darparu cyngor a hyfforddiant ar atgyweirio a gofalu am adeiladau traddodiadol ledled Cymru, y prinder adeiladwyr sydd â'r sgiliau a'r ddealltwriaeth ynghylch sut i ofalu am ein hen adeiladau.

Mae gennym hanner miliwn o adeiladau sydd dros 100 mlwydd oed yng Nghymru, gan gynnwys terasau traddodiadol a hen ffermdai, ac mae angen i ni eu cadw mewn cyflwr da. Mae cost amgylcheddol ac economaidd codi adeiladau newydd yn eu lle yn enfawr. Dywed Nell Hellier, Uwch-swyddog Treftadaeth Adeiledig: 'Mae'n syml: cofiwch gynnal a chadw eich adeilad – rhowch MOT blynyddol iddo yn yr un modd â'ch car, gan glirio cafnau, paentio ffenestri, gwaredu llystyfiant, ond hefyd defnyddiwch ddeunyddiau anadladwy fel rendradau calch i gadw'ch adeilad yn sych ac yn gynnes.'



Gellir gweld yr erthygl ar-lein sy'n tynnu sylw at y ffaith bod ein hadeiladau hanesyddol yn cael eu bygwth gan brinder sgiliau yma **https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-66479191**

Ac mae ail erthygl ar-lein, yn Gymraeg, yn arddangos gwaith Canolfan Tywi a phrofiadau un o'n myfyrwyr plastro - **https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/66477144**

Mae gan Ganolfan Tywi ei gwefan ei hun - **https://www.canolfantywi.org.uk/** - lle gallwch gofrestru os oes gennych ddiddordeb yn unrhyw un o'n cyrsiau. Mae'r cyrsiau'n cynnwys 'Effeithlonrwydd Ynni yn eich hen gartref' a 'Caniatâd Adeilad Rhestredig: gwneud cais'.

# Lansio ein Tîm newydd **'Tîm systemau digidol'**



*Kim Butler, Alex Williams, Chris Hope, Aaron Davies, Phil Bowen*

Croeso i'n Tîm Systemau Digidol adrannol newydd a fydd yn gyfrifol am ddarparu cymorth a datblygiad system effeithlon gwasanaeth ar gyfer y systemau allweddol a ddefnyddir o fewn ein adran Lle a'r Seilwaith.

Mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw ac uwchraddio systemau, ynghyd â

gweithredu gwelliannau a thechnolegau digidol newydd sy'n cynhyrchu arbedion effeithlonrwydd ac yn gwella darpariaeth gwasanaeth.

Ar hyn o bryd rydym yn adeiladu'r tîm i allu cynorthwyo gyda chyflwyno blaenoriaethau digidol a TG yr adran sy'n cynnwys nifer o rai newydd systemau rheoli swyddi ac asedau o fewn Gwastraff, Priffyrdd a Fflyd.

Rydym ar fin recriwtio dau swyddi newydd, Uwch Swyddog Cymorth Systemau, a bydd pob un ohonynt yn gyfrifol am arwain prosiectau gweithredu system newydd sydd gennym ar y gweill.

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag Alex Williams, Rheolwr Trawsnewid Systemau Digidol ar ASWilliams@sirgar.gov.uk**

## Datblygu eich **sgiliau digidol** ar-lein

**Edrychwch ar Cyfeiriadur Cyrsiau (virtualcollege.ac.uk) Dysgu Ar-lein**

Byddwch yn gweld llu o gyrsiau hyfforddiant seiliedig ar Microsoft gan gynnwys:

- Microsoft Word
- Microsoft Excel
- Microsoft Powerpoint
- Microsoft SharePoint
- Microsoft PowerBI
- Microsoft Access
- Microsoft Outlook
- Seiberddiogelwch a Rhwydwaith
- A llawer mwy

Ewch ati i bori'r rhestr lawn o'r cyrsiau sydd ar gael a'u trafod gyda'ch rheolwr llinell. Ar ôl cymeradwyo'r cyrsiau, llenwch y ffurflen mynegi diddordeb; mae'r rhan fwyaf o gyrsiau yn cael eu hariannu'n llawn. Bydd y tîm Dysgu a Datblygu yn cysylltu â chi ar ôl i chi wneud cais.

Os ydych yn nodi unrhyw anghenion hyfforddiant, cysylltwch â'n tîm hyfforddiant adrannol drwy e-bostio: **TSTraining@sirgar.gov.uk**